# CYFLEUSTERAU AWYR AGORED TYMOR Y GAEAF
# TELERAU AC AMODAU LLOGI AR GYFER PÊL-DROED A RYGBI

**(Copi i chi yw hwn. Cadwch ef yn ddiogel os gwelwch yn dda.)**

**Cais:**

Rhaid gwneud cais ymlaen llaw mewn ysgrifen ar y ffurflenni cywir ar gyfer llogi unrhyw gyfleuster. Dylai'r cais gynnwys manylion yr holl ffyrdd y bwriedir defnyddio'r cyfleusterau.

**Yswiriant:**

Mae angen i'r Swyddog Cyfleusterau Awyr Agored gael copïau o **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** yr un sy'n llogi, a'r ffurflen Ymwadu Cyfrifoldeb sydd gyda'r papurau hyn, cyn dechrau'r tymor.

**Diogelwch Pethau Gwerthfawr yn ystod Gemau:**

Ni fydd staff ar gael yn y pafiliwn trwy'r amser (efallai bydd angen i Wasanaethwyr Pafiliwn fynd i agor safleoedd eraill). Y Clwb sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw beth gwerthfawr sydd gan y tîm yn cael ei gadw'n ddiogel. Rydym yn cynghori Clybiau i ddewis un aelod o'r tîm i gasglu'r pethau gwerthfawr a'u cloi mewn lle diogel. Dylai'r tîm cartref hefyd gynghori eu gwrthwynebwyr i wneud yr un peth.

**Pryd budd caeau ar gael:**

Bydd y mannau hyfforddi ar gael o 4 Gorffennaf 2020 ymlaen ar gyfer sesiynau hyfforddi (os bydd yr Adran Parciau'n caniatáu)

**Llogi caeau a chyfleusterau ar gyfer digwyddiadau:**

Os bydd clybiau eisiau llogi tir/cyfleusterau'r cyngor ar gyfer Twrnameintiau a Dyddiau Hwyl, bydd angen ein caniatâd ni cyn gwneud unrhyw drefniadau. O dan rai amgylchiadau, bydd angen cwblhau ffurflen y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau (ESAG) a'i dychwelyd gyda'r holl waith papur priodol. Rhaid gwneud y cais o leiaf un mis cyn adeg cynnal y digwyddiad.

**Nodiadau Arbennig ar Hyfforddi:**

1. Rydym bellach yn caniatáu hyfforddi ar bob cae chwarae glaswellt, a bydd angen archebu a thalu am hynny gyda'r Adran Cyfleusterau Awyr Agored. Byddwn yn monitro'r defnydd o'n caeau ni, i wneud yn sicr bod clybiau'n cadw at y Telerau ac Amodau. **Bydd dirwyon ar unrhyw glybiau nad ydynt yn cadw at hyn. Os byddant yn troseddu eto, efallai na chânt ddefnyddio Cyfleusterau Awyr Agored am weddill y tymor.**

2. Bydd clybiau sydd wedi cael caeau wedi'u dyrannu iddynt, a'r rheiny ar gyfer pêl-droed a rygbi, sef rhai 'Defnydd Deuol', ddim yn cael hyfforddi arnynt o dan unrhyw amgylchiadau. Os bydd clybiau'n anwybyddu'r amod yma, byddant yn colli'r cyfle i ddefnyddio'r caeau.

**Dyddiadau Dechrau ac archebu gemau:**

1. Gellir chwarae gemau cyfeillgar cyn dechrau'r tymor, xx Awst 2020 ymlaen.

2. Mae'r tymor pêl-droed yn dechrau ar  xx Awst 2020.

3. Mae'r tymor rygbi'n dechrau ar  xx Awst 2020.

Bydd y dyddiadau gorffen ar gyfer defnydd deuol a'r tymhorau'n cael eu cyhoeddi yn nes at yr amser.

**Archebu caeau lle bydd Criced yn cael ei chwarae:**

1. Ni fydd caeau defnydd deuol lle chwaraeir criced ar gael ar gyfer gemau eraill tan xx Medi 2020.
2. Efallai bydd Clybiau Criced wedi ymuno mewn 'Cystadlaethau Cwpan' ac yn cael llwyddiant ynddynt, ac yn dymuno ymestyn eu tymor y tu hwnt i'r dyddiad uchod, er mwyn ateb y gofyn. Ar adegau, mae'r swyddfa hon yn cadw'r hawl i ganiatáu (o fewn rheswm) i Glybiau barhau i ddefnyddio'r cae a ddyrannwyd iddynt er mwyn cael y fantais o chwarae'r gemau hyn 'gartref'.
3. Bydd pêl-droed a rygbi yn gorffen yn Ebrill ar y caeau sy'n cael eu rhannu, i'r staff cynnal tiroedd gael paratoi'r tir ar gyfer y tymor criced nesaf. Bydd hwnnw fel arfer yn dechrau tua'r wythnos gyntaf o fis Mai. Bydd clybiau mae hyn yn effeithio arnynt yn cael mannau eraill i chwarae. Bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau yn nes at yr adeg.

**Archebu ar gyfer Gêm :**

1. Ar gyfer archebu, gallwch gysylltu â Chyfleusterau Awyr Agored ar 01443 811452 neu trwy e-bost yn cyfleusterauawyragored@caerffili.gov.uk
2. Bydd angen archebu cyn **12 ganol dydd ar y dydd Iau** i chwarae ar ddydd Gwener neu benwythnos, ac ni fydd modd trefnu ar ôl y terfyn hwn.
3. Rhaid i gemau a hyfforddiant ar ddyddiau'r wythnos gael eu harchebu o leiaf 24 awr ymlaen llaw. Ni chaniateir archebu ar ddiwrnod y digwyddiad, a'r unig eithriad i hynny yw hyfforddiant fydd ar y cae yn unig.
4. Rhaid i bob gêm/sesiwn hyfforddi gael ei awdurdodi gan y Cyngor trwy'r swyddfa hon. Ni chaiff y sawl sy'n llogi, o dan unrhyw amgylchiadau, gysylltu'n uniongyrchol gyda'r swyddog pafiliwn i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.
5. Mae'r swyddogion pafiliwn wedi cael cyfarwyddyd i beidio agor yr ystafelloedd newid, o dan unrhyw amgylchiadau, heb i'r swyddfa hon ddweud wrthynt am wneud hynny.
6. Os bydd Clwb/aelodau tîm/cefnogwyr yn ymddwyn yn afresymol tuag at wasanaethwyr, bydd y dyraniad o'r cae hwnnw i'r tîm yn cael ei ganslo.

**Taliadau:**

1. Y clwb sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn talu am y gêm benwythnos cyn y terfyn amser o 12.00 ganol dydd ar ddydd Iau, neu 24 awr cyn gêm ar ddyddiau'r wythnos.
2. Gallwch dalu gydag arian parod neu siec yn unrhyw un o Swyddfeydd Arian Parod yr Awdurdod neu yn y Gwasanaeth Parciau yn Nhŷ Bargod. Gallwn hefyd dderbyn taliadau cerdyn dros y ffôn. Neu gallwch yrru siec trwy'r post. *(Nodwch os gwelwch yn dda bod angen postio sieciau o leiaf wythnos cyn y dyddiad rydych ei eisiau ar gyfer gêm).*

**Canslo:**

1. **Sawl sy'n llogi yn Canslo, Cyn y Gêm:** Gallwn ad-dalu ffi'r pafiliwn hyd at 3pm ar ddydd Gwener ar gyfer gêm penwythnos, neu 3pm y diwrnod cynt i gêm ar ddyddiau'r wythnos. Bydd ffioedd cae yn cael eu had-dalu yn unig os nad yw'r cae wedi cael ei farcio'n barod.

2. **Sawl sy'n llogi yn Canslo, ar ôl amser y Gêm:** Os bydd y tywydd neu amodau ar y cae yn golygu bod gêm yn cael ei chanslo, rhaid i'r clwb (nid y gwasanaethydd) hysbysu'r Swyddfa Parciau cyn 16.30 ar y diwrnod gwaith nesaf, neu ni fydd modd ad-dalu'r tâl gêm.

3. **Y Cyngor yn Canslo:** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw gêm mewn trefniant archebu tymor hir os bydd angen y cyfleusterau ar gyfer digwyddiad arbennig, twrnamaint neu o dan amgylchiadau na ellid eu rhagweld. *(Bydd y Clwb yn cael cymaint o rybudd ag y bo modd o hynny. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw golled sy'n digwydd oherwydd y canslo hynny).*

4. Yn ystod tywydd anffafriol, y clwb sy'n gyfrifol am gysylltu â'r cyngor i ganfod a fydd modd chwarae eu gêm ar y cae sydd wedi'i ddyrannu iddynt.

5. Mae penderfyniad y Cyngor i atal gemau yn ystod cyfnodau o dywydd anffafriol yn benderfyniad terfynol. Os bydd Clwb yn defnyddio'r cyfleusterau ar ôl i'r Cyngor benderfynu hyn, bydd y Clwb yn cael ei ddirwyo a gall fod yn atebol am unrhyw gostau adfer. Gall hyn arwain at y swyddog gydag awdurdod i dynnu yn ôl defnydd o'r cyfleuster, a byddai angen i'r Clwb wneud cais eto am y lleoliad hwnnw. Gall unrhyw Glybiau sy'n torri'r amod hwn gael eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau'r Cyngor. Bydd y Clwb yn gyfrifol am unrhyw hawliadau neu gamau cyfreithiol a allai ddigwydd oherwydd defnyddio heb ganiatâd.

6. Gallwch gysylltu gyda Chyfleusterau Awyr Agored ar 01443 811452 ar ôl 12:00 ganol dydd ar ddydd Gwener ar gyfer gêm penwythnos. Neu gallwch ein dilyn ar twitter @CCBCPitchWise i gael y datganiadau diweddaraf am feysydd chwarae'r cyngor.

**Taliadau:**

1. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid ei daliadau heb roi rhybudd.

2. Mae'r taliadau gêm yn rhoi'r hawl i'r sawl sy'n llogi ddefnyddio: -
   - 2 Ystafell Newid (1 Cartref, 1 Ymwelwyr)
   - Ystafelloedd Newid Dyfarnwr (lle mae rhai ar gael)
   - Cawodydd
   - Arwyneb chwarae

3. Os bydd gennych chi fwy nag un gêm fechan yn y bore, mae modd archebu sesiwn fore fechan os gofynnwch am hynny.

4. Lle mae gan gyfleusterau fwy nag un set o ystafelloedd newid, dim ond un set fydd ar gael fesul gêm. Ond gall clybiau dalu tâl pafiliwn ychwanegol i gael defnyddio mwy nag un set o ystafelloedd newid

fesul gêm.

5. Er mwyn defnyddio unrhyw gyfleusterau eraill ar y safle, fel y gegin, bydd angen archebu ar wahân a thalu ar gyfradd llogi'r pafiliwn.

**Ffurflen Eithrio Treth Ar Werth, Archebu Nifer o Weithiau**

Os byddwch yn llogi cyfleusterau chwaraeon a hamdden corfforol oddi wrthym ni am gyfres o sesiynau/gemau, bydd hynny wedi'i eithrio o Dreth ar Werth o dan yr amodau canlynol:

**Amodau**

1. Eu bod yn gyfres yn 10 neu fwy o sesiynau.

2. Pob sesiwn ar gyfer yr un gamp neu weithgaredd.

3. Bod pob sesiwn yn yr un lle. Mae'n parhau i ateb yr amod hwn pan fydd gwahanol faes chwarae, cwrt neu lôn yn cael eu defnyddio (neu nifer gwahanol o feysydd chwarae, cyrtiau neu lonydd), cyn belled ag y bo'r rhain yn yr un sefydliad.

4. Bod y cyfnod amser rhwng pob sesiwn yn o leiaf 1 diwrnod ond ddim mwy nag 14 diwrnod (i gael cyfnod o 1 diwrnod, rhaid bod 24 awr rhwng dechrau pob sesiwn). Gellir amrywio hyd y sesiynau. Does dim eithriad pan fydd y cyfnodau amser yn fwy na 14 diwrnod os bydd y cyfleuster wedi cau am unrhyw reswm.

5. Bydd angen talu am y gyfres gyfan gyda'i gilydd, gyda thystiolaeth ysgrifenedig o hynny. Rhaid cynnwys tystiolaeth o dalu'n llawn, boed yr hawl i ddefnyddio'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd ynte peidio, am beth bynnag reswm. Os bydd y darparydd yn rhoi ad-daliad oherwydd nad yw'r cyfleuster ar gael am resymau na ellid eu rhagweld, ni fydd hynny'n effeithio ar yr amod.

6. Bod y cyfleusterau'n cael eu llogi i ysgol, clwb, cymdeithas neu sefydliad sy'n cynrychioli clybiau cysylltiedig neu gymdeithasau sy'n aelodau o'r un corff, fel cynghrair leol.

7. Dim ond yr unigolyn sy'n llogi'r cyfleusterau, a neb arall, sy'n cael eu defnyddio yn ystod y sesiynau.

**Defnyddio Ystafelloedd Newid:**

1. Bydd y sawl sy'n llogi yn defnyddio'r cyfleuster ar gyfer y diben a gytunir gyda'r Cyngor ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall o gwbl.

2. Bydd mynediad i'r ystafelloedd newid mewn cysylltiad â'r gêm un awr cyn yr amser dechrau ac am hyd at un awr ar ôl gorffen y gêm. Bydd tâl ychwanegol am unrhyw estyniad i'r amseroedd hyn.

3. Mae'r Swyddogion wedi cael cyfarwyddyd i gloi ystafelloedd newid ychwanegol mewn cyfleusterau lle mae mwy nag un set o ystafelloedd newid a dim ond un gêm yn cael ei chynnal. Os byddwch angen ystafelloedd newid ychwanegol, rhaid archebu'r rheiny a thalu amdanynt ymlaen llaw.

4. Nid yw chwaraewyr yn cael glanhau eu dillad neu esgidiau ayyb. yng nghawodydd yr ystafelloedd newid na'r basnau ymolchi. Mae chwaraewyr fu'n gwneud hyn yn y gorffennol wedi achosi blocio'r draeniau. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y swyddog awdurdodedig yn gyrru anfoneb i'r Clwb i adennill unrhyw gostau'n gysylltiedig gyda hynny.

5. Y sawl sy'n llogi sy'n gyfrifol am ymddygiad y timau cartref a'r ymwelwyr sy'n defnyddio'r pafiliwn. Gall unrhyw ddifrod i'r ystafelloedd newid achosi i'r sawl sy'n llogi fod yn atebol am unrhyw gostau trwsio o ganlyniad, a gall olygu atal rhag defnyddio'r cae chwarae sydd wedi'i ddyrannu. Bydd y Swyddog Pafiliwn yn cael golwg ar y cyfleuster cyn ei ddefnyddio, ond os sylwir ar unrhyw ddifrod neu fod ansicrwydd am hynny, gadewch i'r swyddog awdurdodedig wybod mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol os gwelwch yn dda.

6. Rhaid i Glybiau sy'n dod â'u hoffer trydanol eu hunain i'w ddefnyddio fod wedi cael prawf P.A.T. (Portable Appliance Test) arnynt gan berson cymwys, eu labelu a chofrestr bob blwyddyn. Y Clwb sydd i dalu am hynny eu hunain.

7. Rhaid i unrhyw un sy'n paratoi bwyd mewn pafiliwn neu ystafell newid (ar ran y Clwb) fod â thystysgrif Bwyd a Glendid. Rhaid i'r unigolyn/bobl hynny hefyd lanhau arwynebau'r gegin cyn ac ar ôl eu defnyddio. Nid yw'r Cyngor hwn yn cefnogi nac yn annog defnyddio eu pafiliynau/ystafelloedd newid i baratoi bwyd a diod.

8. Os bydd unrhyw sbwriel/bwyd/diod gwastraff yn cael ei gynhyrchu gan y clwb oddi wrth unrhyw luniaeth fyddant yn ei ddarparu i'r timau cartref/ymwelwyr, y clwb fydd yn gyfrifol am fynd ag ef i ffwrdd.

**Os byddwch angen cyfarwyddyd ar faterion Bwyd a Glendid, cysylltwch os gwelwch yn dda gydag Iechyd yr Amgylchedd. Os byddwch yn dymuno i'r Cyngor fynd â sbwriel neu wastraff i ffwrdd, ffoniwch Reoli Gwastraff ar 01443 815588. Bydd angen talu am y gwasanaethau hyn.**

**Storio Offer:**

1. Bydd y sawl sy'n llogi, gan gytuno gyda'r Swyddog Awdurdodedig, ond yn storio offer i'w ddefnyddio yn unig mewn cysylltiad â'r cyfleuster. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod dilynol i'r offer. Os rhoddir caniatâd, rhaid i'r offer fod wedi'i yswirio gan y Clwb ar wahân ar gyfer unrhyw ddifrod neu golled.

2. Bydd angen i sawl sy'n llogi sy'n defnyddio'r un lleoliad yn rheolaidd bob tymor ofyn caniatâd y swyddog awdurdodedig, mewn ysgrifen a bob blwyddyn, i gael parhau i storio offer i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'r llogi. Bydd y Clwb yn darparu copi i'r Cyngor o restr eiddo o'r holl offer sydd wedi'i storio yn yr adeilad.

3. Os clywir am unrhyw storio offer heb ganiatâd mewn pafiliwn, bydd y

swyddog awdurdodedig yn rhoi 5 diwrnod o rybudd mewn ysgrifen i symud yr eitemau hynny oddi yno. Os methir â'u symud, gallai arwain at fod y Cyngor yn symud yr offer oddi yno. Bydd unrhyw gostau sy'n deillio o hynny yn cael eu gosod ar y sawl sy'n llogi. Ar ôl i'r costau gael eu talu'n llawn, bydd y sawl sy'n llogi yn cael yr offer hwnnw yn ôl.

**Defnyddio'r cae:**

1. Y sawl sy'n llogi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y mynediad i mewn ac allan o'r cae yn cael ei gadw'n glir o gerbydau modur sy'n perthyn naill ai i aelodau'r tîm neu i wylwyr. Os methir â gwneud hynny, gall y cyfleuster gael ei dynnu yn ôl os bydd cwynion oddi wrth bartïon allanol.

2. Ni ddylid parcio na gyrru unrhyw gerbydau modur ar unrhyw gyfleuster sydd wedi'i logi. Os bydd costau i'r Cyngor gyda difrod wedi'i achosi gan barcio a/neu yrru cerbyd modur ar draws wyneb cae chwarae, bydd yn cael ei adennill oddi wrth y sawl sy'n llogi.

**Noder: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Iechyd a Diogelwch, y Clwb sy'n gyfrifol am y 'Dyletswydd Gofal' tuag at y chwaraewyr a'r rhai sy'n gwylio. Rhaid iddynt sicrhau bod pob mynediad at y llefydd chwarae'n cael eu cadw'n glir trwy'r amser, ar gyfer y Gwasanaethau Brys. Bydd y Clybiau hefyd yn gyfrifol am chwaraewyr, gwylwyr ac Ymwelwyr tra byddant yn y cyfleuster.**

3. Bydd y Clwb yn rhyddarbed y Cyngor ar gyfer unrhyw ddifrod a achosir ac unrhyw achosion, gweithrediadau cyfreithiol, costau, hawliadau neu gostau i bobl neu eiddo sy'n digwydd oherwydd y llogi, a gall y Cyngor, yn ôl ei ddoethineb ei hunan yn llwyr, ei gwneud yn ofynnol i'r Clwb drefnu diogelwch yswiriant ar gyfer hynny a dangos tystiolaeth i'r Cyngor o ddiogelwch yswiriant digonol.

4. Nid yw'r Cyngor eu hunain na'u gweision, asiantau nac yswirwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anaf, golled neu ddifrod i bobl neu eiddo, ym mha ffordd bynnag yr achosir hynny, sy'n digwydd oherwydd llogi unrhyw gyfleuster awyr agored.

5. Gwneir pob ymdrech i ateb eich holl ofynion o ran lleoliad a gemau. Ond os am unrhyw reswm y ceir gwrthdaro o ran dyddiad/amser gemau a lle nad oes modd i Glybiau ateb hynny, yna mae'r Swyddog Awdurdodedig yn cadw'r hawl i wneud y penderfyniad terfynol.

6. Y Clybiau sydd i gymryd cyfrifoldeb llawn am chwilio am bethau ar y cae chwarae (e.e. gwydr) cyn ei ddefnyddio. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Rheoli caeau:**

1. Clybiau sy'n dymuno cynnal twrnameintiau yn ystod y 'tymor caeedig'. O ganlyniad ni chaiff y caeau gyfle i adfer ar ôl y tymor cynt. Rhaid i gais i gynnal Twrnamaint ddod trwy e-bost a chael ei yrru i gyfeiriad e-bost y Gwasanaeth Parciau cyfleusterauawyragored@caerffili.gov.uk ac wedyn caiff y cais ei ystyried un unigol.

2. **Bydd clybiau sy'n defnyddio cyfleusterau CBSC heb y caniatâd priodol yn atebol am gost archebu ac am ddirwy sy'n gyfartal â'r tâl archebu (a gall y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden ddewis canslo'r ddirwy dan amgylchiadau eithriadol). Bydd angen talu hyn cyn derbyn unrhyw drefniadau archebu pellach.**

3. **Os bydd clybiau'n parhau i ddefnyddio unrhyw gyfleuster heb y caniatâd priodol, bydd eu cais i ddefnyddio cyfleusterau CBSC yn cael ei dynnu yn ôl am y tymor.**

Mae er budd i bob Clwb ofalu am y cae sy'n gartref iddynt a gadael i'r Swyddog Awdurdodedig wybod am unrhyw sesiynau hyfforddi/twrnameintiau sy'n digwydd heb ganiatâd.

**Os gwelwch yn dda, gwnewch bob ymdrech i lenwi a dychwelyd y Cardiau Arfarnu ar ôl pob gem, dyma eich cyfle i roi eich barn!**

# Hysbysiad Preifatrwydd Cryno

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu ar eich cais at ddibenion gweinyddu eich cais. Os byddwn yn ymrwymo i gontract gyda chi ar gyfer y gwasanaethau y gofynnir amdanynt, bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio at ddibenion gweinyddu'r gwasanaethau hynny e.e. byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt i anfon hysbysiadau testun neu e-bost fel cadarnhad o archebion.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r dudalen we ganlynol:

https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Hysbysiad-Preifatrwydd-Cyfleusterau-Awyr-Agored.aspx

**YMWADIAD CYFRIFOLDEB – CYFLEUSTERAU AWYR AGORED Y GWASANAETH PARCIAU**

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am Golled, Lladrad neu Ddifrod i eiddo neu Anaf i Bobl wrth ddefnyddio ein cyfleusterau. Mae unrhyw bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn yn gwneud hynny ar eu Menter eu Hunain. Mae'n cael ei gytuno y bydd unrhyw beryglon neu offer wedi torri a welir yn cael eu hadrodd ar unwaith i'r swyddog awdurdodedig.

Rwyf yn derbyn y datganiad uchod yn llawn:

Enw'r safle:
……………………………………………………………………………………………………..

Clwb / Sefydliad:
……………………………………………………………………………………………………..

Enw:
……………………………………………………………………………………………………..
**(Printiwch)**

Rôl yn y Clwb:
……………………………………………………………………………………………………..

Dyddiad:
……………………………………………………………………………………………………..

Llofnod:
……………………………………………………………………………………………………..

**(Wedi'u hawdurdodi i lofnodi ar ran y Clwb/Sefydliad)**

Rhif ffôn cyswllt:
……………………………………………………………………………………………………..

Cyfeiriad e-bost:
……………………………………………………………………………………………………..

Y dull cyswllt sydd orau gennych:
……………………………………………………………………………………………………..

**TELERAU AC AMODAU CYTUNDEB LLOGI CYFLEUSTERAU AWYR AGORED**

**TYMOR Y GAEAF 2020/2021**

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y cyfan o'r 'TELERAU ac AMODAU' uchod a'r 'NODIADAU PWYSIG' a'r 'YMWADU CYFRIFOLDEB - CYFLEUSTERAU AWYR AGORED'. Mae'r Clwb yn derbyn yr Amodau Llogi hyn ar gyfer llogi caeau chwarae a chyfleusterau oddi wrth y Cyngor.

**OS NA FYDD CLYBIAU / TIMAU'N DYCHWELYD Y FFURFLEN HON GYDA LLOFNOD A DYDDIAD ARNI, BYDD EU CAIS YN CAEL EI WRTHOD**

Enw'r Clwb:
..............................................................................................................................................

Enw Cyswllt:
……………………………………………………………………………………………..

Cyfeiriad:
……………………………………………………………………………………………..
……………………………………………………………………………………………..
……………………………………………………………………………………………..
……………………………………………………………………………………………..

Llofnod: ……………………………………… Dyddiad:…..… /……. /….…..

Rhif ffôn cyswllt ar gyfer yr uchod:-

Enw Cadeirydd y Clwb:
……………………………………………………………………………………………..

Rhif Ffôn Cyswllt:
……………………………………………………………………………………………..

Enw Ysgrifennydd y Clwb:
……………………………………………………………………………………………..

Rhif Ffôn Cyswllt:
……………………………………………………………………………………………..

**A ydych wedi cynnwys?**

1. Copïau o'ch Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
2. Ffurflen Ymwadu'r Cyngor, wedi'i llofnodi.
3. Copïau o'ch rhestr o gemau chwaraeon ar gyfer y tymor sydd i ddod.

**Nodwch os gwelwch yn dda, os na fydd y dogfennau uchod gyda hwn efallai na chaiff eich cais ei brosesu.**

**Cadwch y telerau ac amodau fel gwybodaeth i chi eich hunan os gwelwch yn dda, a dychwelyd y Telerau ac Amodau Cytundeb Llogi yn yr amlen barod a ddarparwyd.**